# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2024**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**
**3010N10-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2024. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN SYLFAENOL**

**GAEAF 2024 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Rhaid Peidio Dawnsio...** gan Emyr Lewis

**Rheolau** gan Nia Llwyd

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r ddwy gerdd yn trafod bod yn gaeth i reolau, a'r awydd i'w torri.
- Cawn gyfyngiad amser yn y ddwy gerdd o 'rhwng wyth a deg y bore' i 'rhwng naw a thri'.
- Mae pobl yn y ddwy gerdd yn gorfod gwisgo mewn ffordd arbennig, ond hefyd mae'r rheol hon yn cael ei thorri yn y ddwy.
- Ar ddiwedd y gerdd Rheolau cawn glywed mai'r Pennaeth sydd wedi bod yn siarad amdano'i / amdani'i hun. Ond cerdd am y bobl gyffredin ydy Rhaid Peidio Dawnsio.
- Mae hawl gan y Pennaeth i dorri rheolau'r ysgol, ond does dim hawl gan bobl Caerdydd i wneud hynny.



© WJEC CBAC Cyf.

**Rhaid Peidio Dawnsio...**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor yn orchmynnol ac yn benodol iawn. Gallwn glywed beth *na* allwn ni fod yn ei wneud, a phryd yn union.
- Clywn hefyd pwy sy'n ein gwahardd, ac yn gwneud y rheolau.
- Cawn glywed hefyd yn lle mae'r gwaharddiad yn digwydd.
- Mae'r ail bennill yn manylu ar un eithriad o'r rheol, sef beth yw'r amodau sydd eu hangen fel y gellir bod yn dawnsio wedi deg o'r gloch.
- Mae'r cyfyngiadau hyn yr un mor hurt â'r rheol wreiddiol.
- Cawn yn y pennill olaf ddarlun o rai sy'n 'beiddio torri'r rheol'. Nid yw'r rhain yn gwrando ar awdurdod lle mae'r awdurdod hwnnw'n afresymol.
- Mae byd natur fel petai'n gymorth i ganiatáu i'r dawnswyr fynd allan heb i'r awdurdodau fod yn gwybod.
- Tra bod y swyddogion yn 'gynnes yn eu ffau', mae'r dawnswyr yn brwydro yn erbyn y tywydd i fynd allan i herio'r drefn. Maen nhw'n gwneud hynny drwy ddiosg eu sgidiau cochion a mynd allan yn droednoeth.
- Trosiad yw'r gerdd am sut y gall pobl gyffredin fod yn herio'r drefn pan mae'r drefn honno'n ceisio eu rheoli'n afresymol.



© WJEC CBAC Cyf.

**Rheolau**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Ar y dechrau o bosib cawn yr argraff mai disgybl sydd yma.
- Mae'n credu bod y rheolau wedi cael eu gwneud ar gyfer pobl eraill.
- Cawn glywed cyfres o reolau, ond mae pob un yn cael eu dilyn gan y bardd yn dweud nad ydy e/hi yn bwriadu eu dilyn.
- Mae'r gerdd yn nodi'r pethau y byddai disgyblion yn hoffi eu gwneud e.e. neidio'r ciw, defnyddio ffonau a gadael gwersi.
- O bosib, rydyn ni'n cael darlun o ddisgybl sy'n anodd ei drin achos ei fod/bod yn gwrthod dilyn y drefn.
- Mae'r gerdd yn cyrraedd uchafbwynt ar y diwedd gan ddatgelu mai'r un sydd heb fod yn dilyn y rheolau ydy'r Pennaeth ei hun.

**Neges**

Yr un yw neges y ddwy gerdd yn sylfaenol, sef astudio'r syniad o wneud fel y mynnwn. Dyna sy'n digwydd yn y ddwy gerdd. Mae wedi digwydd o'r dechrau yn Rheolau, ond digwydd erbyn y diwedd a wna yn Rhaid Peidio Dawnsio. Mae yna deimlad fod rheolau yn annheg yn y ddwy gerdd.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| **Enghraifft** | **Nodwedd** |
|---|---|
| **Rhaid peidio dawnsio** | negydd |
| **yr Heddlu Cudd a'r Cyngor** | rhestru |
| **ar stryd na pharc na heol** | rhestru/negydd |
| **coch** | ansoddair |
| **niwl a'r barrug yn fwgwd** | trosiad |
| **barrug/poethion** | cyferbyniad |

**Arddull Rheolau**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| **Rheolau i bawb, ond dim i fi** | cyferbyniad |
| **'Dim…'** | ailadrodd |
| **Hwylio i'r blaen** | trosiad |
| **Fel cadno yn hela** | cyffelybiaeth |
| **Siwmper las ac esgidiau du** | rhestru |
| **'Pam torri rheolau?'** | cwestiwn |

**Mesur**

**Rhaid Peidio Dawnsio yng Nghaerdydd: Mydr ac Odl**

Mae'r defnydd o fydr ac odl yn adlewyrchu symudiad y dawnsio. Mae'r odl yn awgrymu'r harmoni sy'n digwydd wrth i bobl fynd ati i greu trefn wrth ddawnsio. Mae'n eironig y byddai'r awdurdodau'n cyhuddo'r dawnswyr o greu anhrefn.

**Rheolau: Mydr ac Odl**

Mae'r gerdd fesul cwpled, ac mae'r bardd yn rhoi un rheol i bob cwpled. Mae rhai geiriau pwysig allweddol yn yr odl ar y diwedd e.e. rheol/ysgol.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos ymateb personol eithaf da<br>Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>Cymharu testunau'n eithaf da<br>*Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>*Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **21-30** | Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos peth ymateb personol<br>Defnyddio dyfyniadau addas<br>Ymgais i gymharu testunau<br>*Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>*Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ymateb yn bersonol<br>Defnyddio ambell ddyfyniad<br>Peth ymgais i gymharu testunau<br>*Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>*Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| **0-10** | Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Cyfeirio at arddull/iaith i greu awyrgylch<br>Dechrau ymateb yn bersonol<br>Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>*Ymgais at ddilyniant*<br>*Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.